**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 18 CHWEFROR 2026 TRWY MS TEAMS (10:00 – 10:45)**

**Aelodau'r PLIA a oedd yn bresennol:** Andrew Blackmore (Cadeirydd Annibynnol), Kalwant Grewal (Aelod Annibynnol), Jassa Scott (Aelod Annibynnol), Bethan Price (Aelod)

**Cynrychiolydd MIAA a oedd yn bresennol:** Gary Baines

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr), Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd), David Burley (Pennaeth Busnes), David Carr (Rheolwr Cyllid), Cher Cooke (Rheolwr Arolygon)

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Dianne Bevan (Aelod) a Julie Rees (Archwilio Cymru).

**2. Datganiadau Buddiannau**

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

**3. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2026**

3.1 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2026 ac fe'u mabwysiadwyd.

**4. Diweddariad gan y Prif Weithredwr**

4.1 Rhoddodd Shereen Williams ddiweddariad llafar ar sefyllfa bresennol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC):

- Y prif fater oedd profi'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP), a oedd wedi mynd yn dda. Er bod rhai bygiau, nid oeddent o bwys. Nodwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei drin yn llawnach o dan eitem agenda 7.
- Roedd y gwaith arolygu etholiadol yn mynd rhagddo a disgwyliwyd i rai Gorchmynion gael eu pasio cyn hir.
- Roedd gwaith paratoi ar gyfer yr arolwg nesaf o'r Senedd yn mynd rhagddo ac roedd Cadeirydd CDFfC eisoes wedi cynnal trafodaethau â Chomisiwn y Senedd ynglŷn â'r hyn y gall CDFfC ei wneud i helpu i sefydlu Aelodau newydd y Senedd.

4.2 Diolchodd y Cadeirydd i Shereen Williams am ei hadroddiad.

**5. Materion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol.**

5.1 Nododd y Pwyllgor y materion a gododd o’r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2026 a oedd wedi derbyn sylw a’r rhai nad oeddent wedi’u cwblhau eto.

5.2 O ran y mater a oedd yn weddill ynglŷn â hyfforddiant Diogelwch TGCh i’r aelodau, adroddwyd y byddai’r aelodau’n dilyn yr hyfforddiant ar 24 Mawrth.

5.3 O ran y mater a oedd yn weddill ynglŷn ag Yswiriant Indemniad, adroddodd Shereen Williams ei bod wedi holi Cyrff Hyd Braich eraill Llywodraeth Cymru a gadarnhaodd nad oedd ganddynt yswiriant. Nododd y Pwyllgor yr arweiniad yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a oedd yn argymell bod dadansoddiad cost a budd yn cael ei gynnal yn gysylltiedig ag yswiriant.

5.4 Dywedodd Shereen Williams ei bod hi’n trafod gyda chynghorydd cyfreithiol CDFfC ar hyn o bryd ynglŷn â gwneud gwaith cynllunio senario i ymdrin â’r holl benderfyniadau allweddol a wneir gan CDFfC a’r atebolrwydd cyfreithiol sy’n gysylltiedig â nhw yn ystod yr wythnosau i ddod. Dywedodd y dylai adroddiad ar y canlyniad fod ar gael ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth. **Cytunwyd** y byddai’r Prif Weithredwr yn rhoi diweddariad i CDFfC ar y sefyllfa yn eu cyfarfod nesaf.
**Gweithredu:** Prif Weithredwr **Erbyn:** 03/03/26

5.4 O ran y mater a oedd yn weddill ynglŷn ag adolygu ymarfer Hunanasesu’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (PLIA), adroddwyd ei fod yn cael ei ystyried gan MIAA ar hyn o bryd a dywedodd Gary Baines y dylai fod wedi’i gwblhau erbyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 03/03/26

## 6. Archwilio Mewnol: Adroddiad Dilynol Pwynt Gwirio Un y WEIP

6.1 Cyflwynodd Gary Baines yr adroddiad dilynol a aeth i’r afael â’r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad sicrwydd Pwynt Gwirio Un ar y WEIP a gyhoeddwyd ym mis Medi 2025. Dywedodd y bu’r gwaith dilynol yn foddhaol ac nad oedd unrhyw bwyntiau penodol yr oedd eisiau tynnu sylw’r Pwyllgor atynt.

6.2 Adroddwyd, oherwydd terfyn amser caeth y prosiect WEIP, bod MIAA yn gweithio ar bwyntiau gwirio sicrwydd dau a thri ar hyn o bryd gyda’r bwriad o gynhyrchu adroddiad dros dro i lywio’r penderfyniad i fynd yn fyw neu beidio. Disgwyliwyd y byddai’r adroddiad hwn yn cael ei gwblhau erbyn diwedd yr wythnos.

6.2 Yn dilyn y penderfyniad i lansio’r WEIP, byddai MIAA yn ymgymryd ag ail ddarn o waith yn fuan wedi hynny ynglŷn â’r broses lywodraethu a fyddai’n cael ei hadrodd i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth.

6.3 Diolchodd y Cadeirydd i Gary Baines am ei adroddiad, a nodwyd gan y Pwyllgor.

## 7. Cynnydd Prosiect WEIP y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE).

7.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad diweddaru ar statws presennol y prosiect WEIP a’r tebygolrwydd y byddai’n cael ei lansio yn unol â’r disgwyl. Byddai’r penderfyniad ar b’un a fyddai’r WEIP yn mynd yn fyw yn cael ei wneud gan Grŵp Llywio’r Prosiect

WEIP, a fyddai'n cyfarfod i wneud y penderfyniad hwnnw ar 25 Chwefror 2026. **Cytunwyd** y byddai'r Pwyllgor yn cael ei hysbysu'n brydlon am benderfyniad y Grŵp Llywio i fynd yn fyw neu beidio.
**Gweithredu:** Pennaeth Iechyd Democrataidd **Erbyn:** 25/02/26

7.2 Ar hyn o bryd, roedd statws y prosiect wedi newid o oren i wyrdd ac ystyriwyd ei bod yn debygol iawn y byddai'r WEIP yn cael ei lansio ar y dyddiad a fwriadwyd, sef 2 Mawrth 2026. Adroddwyd bod yr holl gontractau gofynnol ar waith bellach, bod y deunydd hysbysebu wedi cael ei gymeradwyo'n ddiweddar gan y BRhE, bod arweiniad i swyddogion canlyniadau wedi cael ei gyhoeddi ar wefan CDFfC a bod gwiriad iechyd TG anibynnol wedi cael ei gynnal yr wythnos flaenorol. Disgwyliwyd i waith profi'r platfform gael ei gwblhau erbyn diwedd yr wythnos hon ac y byddai'r ychydig fygiau sy'n weddill yn derbyn sylw.

7.3 Er bod rhai problemau o hyd ar ochr weinyddol y platfform, roedd yr ochr ar gyfer defnyddwyr wedi'i chwblhau, ac roedd yr holl elfennau a fwriadwyd wedi cael eu cyflawni a byddent ar gael i ddefnyddwyr y platfform. Ni ddisgwyliwyd i ofynion ychwanegol gweinyddu'r platfform effeithio'n sylweddol ar adnoddau staff.

7.4 Roedd y Pwyllgor am ddiolch yn ffurfiol i staff Tîm Iechyd Democrataidd CDFfC am eu holl waith caled wrth fodloni terfynau amser tynn y WEIP.

## 8. Adroddiad Blynyddol Drafft Cadeirydd y PLIA

8.1 Nododd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y PLIA ar gyfer 2025-26, a fyddai'n cael ei adolygu ymhellach ar gyfer cyflawnder a chywirdeb ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

8.2 Nodwyd bod Cylch Gwaith y Pwyllgor yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn datgan y bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn, ond cynhaliwyd llawer mwy o gyfarfodydd na hynny yn ystod y flwyddyn bresennol. Ystyriwyd bod hyn oherwydd lefel y risg a oedd yn gysylltiedig â'r prosiectau amrywiol yr oedd CDFfC wedi ymgymryd â nhw yn ystod y flwyddyn, ond dylid cynnal pedwar prif gyfarfod chwarterol fel arfer, yn ogystal ag unrhyw gyfarfodydd ad-hoc sy'n ofynnol, a dylid mabwysiadu hyn ar gyfer y dyfodol.

8.3 Cytunwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei ddiweddaru a'i gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol cyn cael ei drosglwyddo i gyfarfod CDFfC i'w adolygu a'i gymeradwyo.

## 9. Adolygiad o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

9.1 Ystyriodd y Pwyllgor fersiwn ddiweddaraf y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a oedd wedi cael ei hadolygu gan yr Uwch Dîm Rheoli i bennu'r camau lliniarol a'r perchnogion risg priodol.

9.2 Nodwyd y dylai cam lliniarol Risg 2 gynnwys dogfennau Cymraeg clir yn ogystal â Saesneg clir. **Cytunwyd** y byddai hyn yn cael ei ddiwygio.
**Gweithredu:** Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 25/02/26

9.3 Heriodd y Pwyllgor y cam lliniarol ar gyfer Risg 9 ynglŷn â TG a Chymwysterau Cymru yn ymgymryd ag unrhyw ofynion ychwanegol y tu hwnt i'r gwasanaeth busnes fel arfer yr oeddent yn ei ddarparu. Esboniodd Shereen Williams mai opsiwn posibl yn unig oedd hyn, yn hytrach na gweithdrefn safonol, pe byddai angen ymestyn y gwasanaethau a ddarperir gan Gymwysterau Cymru. Yn yr achos hwnnw, gallai CDFfC ofyn i Gymwysterau Cymru a allent ymgymryd â'r gwaith ychwanegol ac, os felly, darparu dyfynbris ar ei gyfer.

9.4 Dywedodd y Cadeirydd y cytunwyd yn flaenorol y byddai aelodau CDFfC yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â pherchen ar risgiau, ond nad oedd hyn wedi cael ei adlewyrchu yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi'i diweddaru. Dywedodd Shereen Williams y byddai angen i hyn gael ei drafod ymhellach gydag aelodau CDFfC yn eu cyfarfod ym mis Chwefror ac y gallai fod yn gyfuniad o berchnogion risg gydag aelod o'r bwrdd a swyddog adrodd yn berchnogion risg ar y cyd.

## 10. Cwynion.

10.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad 'Dim' ar gwynion a dderbyniwyd yn ystod 2025-26 hyd at ddiwedd mis Ionawr 2026.

## 11. Cynllun Gwaith y PLIA ar gyfer 205-26

11.1 Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2025-26.

11.2 Nodwyd, o ganlyniad i'r gwaith archwilio mewnol presennol ar y WEIP, y byddai angen i'r Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol a dogfennau cysylltiedig gael eu gohirio tan gyfarfod cyntaf y PLIA yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## 12. Unrhyw Fater Arall

12.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3 Mawrth 2026 am 09:30 a.m.